Rhyfel y degwm

Ardal amaethyddol yw Llannefydd ac mae gwell tir i'r dwyrain I lawr am waelod Dyffryn Clwyd ond mae llawer gwaelach tir. Ni welodd yr ardal hon dlodi a welodd ardaloedd eraill tua'r gorllwein efallai mai hynny sydd yn cyfrif am y ffaith fod hanes Llannefydd dros y canrifoedd heb chwyldroadau a therfysgoedd mawr a bod bywyd wedi mynd ymlaen yn eithaf tawel, hyd y gwyddom ni.

Y mae yn Llannefydd draddodiad o grefydda. Yn hanesyddol eglwysig fyddai addoli ac Eglwys y plwyf fyddai prif fangre cyfarfod ac hefyd y sefydliad mwyaf dylanwadol ym mywyd y boblogaeth. Wrth gwrs roedd hyn yn wir drwy'r ardaloedd gwledig ac roedd I'r Ficer neu Reithor barch a dylanwad o leiaf gymaint a'r sgweiar lleol, nid rhyfedd felly I ddeffroad y ddeunawfed ganrif a fflam anghydffurfiaeth achosi llawer o chwerwder ymysg y rhai a gadwodd yn ffyddlon I'r Eglwys sefydledig, gyda pob capel a godwyd ac yn mhlwyf Llanefydd fe godwyd saith yn cychwyn gyda Capel Ffynhonnau yn 1795 fe leihawyd dylanwad yr Egwlys a theimlai yr arweinwyr yn hynod o amheus o ddylanwad y capeli ar fywyd y gymdeithas y wleidyddol yn ogystal ag ysbrydol. Un asgwrn cynnen rhwng yr eglwyswyr a'r anghydffurfwyr oedd y degwm. Yn draddodiadol talai pawb un ran o ddeg oi enillion, pa un ai dabyw, cnydau neu ariani'r Eglwys er y newidwyd y ddeddf yn 1836 fel y ffermwyr bach mewn llefydd fel Llannefydd a oedd y ddigon tlodiadd eu byd ac eisioes yn cyfrannu at gadw capeli eu hunain.

Mae'n debyg mai cwyno a thalu fyddai'r mwyafrif wedi ei wneud oni bai I gyflwr amaethyddiaeth waethygu yn sylweddol yn ystod 60, 70 ac wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bu nifer o hafau eithriadol a wlyb pryd y methwyd a chael cynhaeaf a chan fod prisiau isel a chostau uchel yn golygu fod llawer eisioes mewn trafferthion ariannol aeth gofynion y degwm yn anoddach fyth I'w ddioddef gan y capelwyr.

Y Parch Ebenezer Jones, B.A. oedd Ficar y plwyf yn ystod y gwrthdaro. Gwr di briod ac yn teimlo baich ychwanegol taliadau'r degwm yn artaith ar ei ysgwyddau ac yn arbennig felly gan fod rhai 'radicals' yn ysgrifennu yn erbyn degymu yn Y Faner a hynnu hanner canrif ynghynt. Fe wnaeth Thomas Gee a'I fab Hywel waith da ond yn ol Ebenezer Jones hwy oedd y rheswm am yr helynt yn Llannefydd. Fe ffurfiwyd Cyngriar Gorthrymydegion y Degwm (Farmers Tithe Defence League) cymdeithas I amddiffyn ffermwyr yn erbyn anghyfiawnder ac roedd y gyngriar yn ennill tir drwy Gymru. Thomas Salusbury, Teiliwr a phregethwr cynorthwyol gyda'r Bedyddwyr oedd ysgrifennydd y gyngriar ac roedd ei frawd John Salusbury, Ty'n Rhewl, yntau hefyd yn bregethwr cynorthwyol gyda'r bedyddwyr ac yn gasglwr trethi ond doedd dim gwrthwynebiad I dalu rheini gan fod gan y gymdeithas angen arian. Gorthrymder un sector o'r gymdeithas ar y gweddill oedd degymu, d'oedd y system ddim yn un deg pan oedd pawb yn eslwyswyr ond bellach r'oedd oddeutu wythdeg y cant yn anghydffurfwyr, gorthrwm y lleiafrif ar y mwyafrif llethol a mwy na hynny r'oedd mwyafrif yr arian a gasglwyd trwy'r degwm yng Nghymru yn mynd yn uniongyrchol dros Glawdd Offa.

Ym Rhagfyr 1887 ceisiodd y plwyfolion ohirio talu'r Degwm hyd ar ol ffair Mis Ebrill er mwyn cael cyfle I werthu anifeiliad ond gwrthod wnaeth Ebenezer Jones, Y Person. Penderfynnodd pawb sefyll a pheidio talu, roedd rhai ardaloedd wedi cael gostyngiad o bedwar swllt yn y bunt, digwyddodd hyn yn mis Chwefror. Ni chlywodd neb dim hyd at yr unfed ar bymtheg o fis Mai pan ddaeth rhybudd I'w dalu ymhen deng niwrnod new mi fyddai Mr Stevens, Y Beili yn dod I gasglu'r arian neu I atalfaelu.

Yr oedd gan rhai tyddynwyr a ffermwyr yr ardal fantais os oeddynt yn byw mewn mannau lee gellid gweld y ffordd am belter, r'oedd yna gyrn arbennig sef Corn y Degwm ac mae yna un heddiw yn meddiant teulu yn y plwyf. Gwelodd gwr Ty Celyn, Stevens, y beili a Rooks a'I cyfeillion yn dod lawr

Allt y Felin o bentref Henllan, cafodd ddigon o amswer I ganu'r corn I rybuddio yr ardalwyr ac erbyn I swyddogion y degwm gyrhaedd'r oedd tyrfa wedi ymgynyll y gweiddi ac yn chwifio ffyn ac yn y blaen. Gymaint oedd y swn dychrynwyd y ceffylau new torwyd y sgilbren, gododd neb ben bys I roi help I'w drwsio ac yn ol am Llechryd yr aethant a chael help gan ddynion Foulkes Roberts a oedd yn eglwyswr ac yn ffrindiau hefo'r person. Yn ol y daethant y diwrnod canlynol I ardal Cafn Berain ac atafaelwyd mochyn yn Nghefn Berain Ucha er I'r tyddynwr fod yn brysur yn plethu drain ar y giat I'w rhywstro a un mochyn hefyd yn Nghefn Berain Isa ac un yn y Pant. Atafaelwyd dau ddynewaid yn Nant Isa. Llwyddodd William Williams, Bryn Gwyn guddio pob dim ond roedd tyrfa fawr o'r plwyfolion wedi ymgynyll yno a hynnu cyn I'r plismyn a oedd ar y blaen yn clirio ffordd ir Beiliaid ond roedd 'Emergency Men' wedi dechrau ffistio a phastymu dorf a doedd dim trugaredd anafwyd oddeutu 20 o bobl. Gyrrwyd mab Bryn Isa I Ddinbych a rei ferlen I ol Dr Pritchard. Roedd yn gyflafan waedlyd y diwrnod hwnnw.

Gwraig amlwg iawn ar y pryd oedd Mrs Jones, Nant Ucha, pladres o ddynes nobl fei galwyd yn 'Frenhines Llannefydd' cerddai gan chwifio baner ddu. Baner I gyhoeddi Cynhebbrwng yr Eglwys Sefydledig. Ein dyletswydd meddai fel cymydog da ac yn wir fel Cristnogion ydyw amddiffyn ein cydardalwyr rhag I'r Atalfaelwyr gymeryd mantais ar y rhai gwan. Hi fu'n bygwth Mr Stevens a thwca, 'Welodd rhywun ti'n dod yma'. Yna cododd y twca ac meddai 'Welith neb mohonat yn mynd oddi yma chwaith. ' Wedi'r gyflafan yn Y Bryn Gwyn fe aeth y beiliaid ymlaen I fyny Graig Llan ac I Simdde Hir r'oedd tyrfa o bobl wedi do dyno yn ol adroddiad yn Y Faner tua saith cant y rheini yn gweiddi ac yn pledu twyrch a cherrig at y plismyn. Ceisiodd Leadbetter ddarllen Y Riot Act ond ofer fu ei ymdrech gan I Gwilym Parry ar ran y Gyngrair ddweud nad oedd hynnu yn gyfreithlon oherwydd nad oedd yno Ynad Heddwch ategwyd hyn gan Hywel Gee ac ymbiliodd ar y dorf dawelu. Caerenydd a oedd yn wr blaenllaw gyda'r Gyngriar a atgoffodd pawb nad oedd dau ddrwg ddim yn gwneud un da. Tawelodd y dyrfa yn y man yn ei Blaenau yr aeth y beiliaid I Ffrith Fron Las ar Fynydd y Gaer roedd yna ddegwm I dalu arni siwrnai wag gawsant yno gan I William Jones Tan Llan wneud yn siwr fod pob anifail wedi cael ei symud oddi yno. Ni fu dim gwrthdaro pan ddaethant yn ol I Lannefydd gan fod y plismyn wedi dod yn ol I gadw heddwch roedd y pentref ar ardalwyr yn canu Hen Wlad Fy Nhadau.

Nid dyma ddiwedd helynt y degwm yn Llannefydd r'oedd Arweinwyr y Methodistiaid a'r Bedyddwyr yng Nghymru am I'r plwyfolion beidio gweithio'n uniongyrchol yn erbyn y gyfraith, ond d'oedd hynnu ddim yn golygu fod yn rhaid iddynt gydymffurfio hefo'r casglwyr. Mae hanes am John Williams, Plas Ucha wedi cadw dimeiau I dalu'r degwm ac wedi eu rhoi yn y popty mawr I gadw'n gynnes pan ddeath y beili fe tynnodd allan gyda rhaw dan a'I rhoi ar hambwrdd haearn mewn hir a rhawg casglwyd yr arian oddi ar y llawr ond method y ffermwr gaw ei dymer a tharodd Rooks ar draws ei gefn. Cafodd ddirwy £20 a £4 19s 5d o gostau. Newidwyd y ddeddf fel y gellid talu mewn arian gan fod atafeulu yn amal yn mynd a mwy or fferm na swm yr arian a oedd yn ddyledus ond ni oedd un ffordd na'r llall yn mynd I helpu tyddynwyr a ffermwyr bach. Diolch nad oes neb heddiw yn talu'r degwm.